**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Adolygiad pellach o ddatblygiadau yn narpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru

Medi 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Children.&YoungPeopleCommittee@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Adolygiad pellach o ddatblygiadau yn narpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru

Medi 2010

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Penodwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru ac adrodd yn ôl ar y materion hynny.

Yn bennaf, gall y Pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiad a pholisi Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig ac ystyried adroddiadau Comisiynydd Plant Cymru.

Yn aml, nid yw oedolion yn cymryd barn plant a phobl ifanc o ddifrif. Fel gwleidyddion, ein cyfrifoldeb ni yw annog plant a phobl ifanc i leisio eu barn ac i ninnau wrando arnynt. Sefydlwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i helpu i wneud hynny.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 16 Hydref 2007 pan gafodd cynnig i'w sefydlu ei gymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn. Bydd yn bodoli drwy gydol y Trydydd Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig yn Rheol Sefydlog 21. Mae'r rhain ar gael yn **www.cynulliadcymru.org**.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Helen Mary Jones (Cadeirydd)**
Llanelli
Plaid Cymru



**Angela Burns**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Eleanor Burnham**
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Sandy Mewies**
Delyn
Llafur



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur

# Cynnwys


**Cyflwyniad y Cadeirydd** .......... 5

**Argymhellion y Pwyllgor** .......... 7

**Cyflwyniad a Chefndir** .......... 9

**Materion Allweddol** .......... 14

Cynnydd wrth weithredu Model Eiriolaeth Llywodraeth Cymru .......... 14

Model comisiynu rhanbarthol Llywodraeth Cymru .......... 15

Annibyniaeth ar gyfer darparwyr eiriolaeth .......... 16

Gwasanaethau eirioli ar gyfer plant sy'n agored i niwed .......... 18

Pwysau ariannol a'i effaith ar eiriolaeth gyffredinol .......... 20

Prynu heb Gontract .......... 22

Arolygu a Rheoleiddio .......... 24

Y Gwasanaeth Eiriolaeth Cenedlaethol a'r Llinell Gyngor - Meic .......... 25

Y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol .......... 27

## Cyflwyniad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ei adroddiad cyntaf ar wasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Mawrth 2008. Bwriad y 12 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad oedd sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn sicr o allu cael mynediad at eiriolwr annibynnol y maent yn ymddiried ynddo i siarad ar eu rhan.

Ym mis Mai 2009, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad pellach a oedd yn lleisio pryderon bod rhai plant a phobl ifanc yng Nghymru yn parhau i gael trafferth i gael mynediad at eiriolwr annibynnol, a hynny ar adeg pan mae angen i'w lleisiau gael eu clywed.

Fwy na dwy flynedd ar ôl ein hymchwiliad gwreiddiol, roeddwn yn siomedig i glywed tystiolaeth yn ystod yr adolygiad hwn a oedd yn awgrymu bod gwasanaeth eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol yn parhau i beidio â bod yn realiti yng Nghymru. Ddeng mlynedd wedi Adroddiad Waterhouse, mae'n hanfodol bwysig ein bod yn gwneud popeth y gallwn i sicrhau bod gan y plant sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas y gallu i siarad am y materion sy'n effeithio arnynt. Fel y dangosodd adroddiad Waterhouse, dim ond ar ôl gwrando ar blant a phobl ifanc y gallwn ddeall y pryderon sy'n eu hwynebu. Os nad ydym yn gwrando, sut mae modd i ni wybod pwy sy'n agored i niwed? Oherwydd hyn, mae'r Pwyllgor yn argymell, er y dylid blaenoriaethu gwasanethau eirioli i blant sy'n agored i niwed, na ddylid colli golwg o'r angen am ddarpariaeth gyffredinol.

Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, rhaid i ni i gyd wneud penderfyniadau anodd ynghylch pa wasanaethau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt. Mae eiriolaeth yn hanfodol i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Gall eiriolwr fod yn amhrisiadwy i blentyn sy'n mynd trwy gyfnod anodd neu sydd mewn sefyllfa a allai drawsnewid ei fywyd. Heb eiriolwr mewn sefyllfaoedd o'r fath, ychydig o reolaeth sydd ganddo dros ei dynged ei hun.

O'u darparu'n dda, gall gwasanaethau eiriolaeth roi hyder i blant a phobl ifanc siarad drosynt eu hunain ac, efallai, hyd yn oed helpu eraill i wneud yr un peth. Fel Pwyllgor, ni allwn ddweud wrth Lywodraeth Cymru sut y dylai flaenoriaethu ei chyllideb, ond rydym yn annog Gweinidogion i ystyried pwysigrwydd tymor hir gwasanaethau eirioli.

Yn gryno, gwrandewch ar y plant a'r bobl ifanc sy'n parhau i ymdrechu i siarad a rhowch iddynt y gwasanaeth gorau posibl.

**Helen Mary Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

## Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lwyodraeth Cymru isod, a hynny yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad. Gweler y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad am y dystiolaeth gefnogol a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau statudol heb unrhyw oedi pellach. **(Tudalen 15**)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu a yw'r dull consortia yn realistig ac yn ymarferol, neu a fyddai model cenedlaethol yn ffordd well ymlaen. Mae'n hanfodol nad yw cynnal adolygiad yn amharu ar y dull cyfredol. **(Tudalen 16)**

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod comisiynwyr yn cynnwys plant a phobl ifanc wrth bennu ansawdd, sicrhau annibyniaeth, a dylanwadu ar y broses o gomisiynu gwasanaethau eirioli er mwyn sicrhau bod ganddynt hyder yn y gwasanaethau a ddarperir. **(Tudalen 18)**

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a diffinio hawliau statudol plant a phobl ifanc i eiriolaeth, gan roi blaenoriaeth i ddiffinio 'plant mewn angen', er mwyn mynd i'r afael ag amrywiadau rhanbarthol yn y ddarpariaeth. **(Tudalen 19)**

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhieni corfforaethol iddynt yn gwybod am eu hawliau i eiriolaeth. **(Tudalen 20)**

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r hyn a olyga wrth 'cyffredinol' ac yn nodi'n glir yr hawl sydd gan bob plentyn a pherson ifanc i eiriolaeth, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cyson a theg ar gael ledled Cymru. **(Tudalen 22)**

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid blaenoriaethu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni, ond na ddylid anghofio am ddarpariaeth gyffredinol. **(Tudalen 22)**

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir yn ei chanllawiau statudol nad yw prynu heb gontract yn dderbyniol ac na ddylai ddigwydd ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol. **(Tudalen 24)**

**Argymhelliad 9.** Dylai unrhyw adolygiad o'r dull consortia o gomisiynu gwasanaethau eirioli ystyried a fyddai model cenedlaethol yn dileu'r angen i brynu heb gontract. **(Tudalen 24)**

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried beth yw'r ffordd orau iddi gefnogi hunaneiriolaeth ac eirioli ar ran cymheiriaid, er mwyn grymuso plant a phobl ifanc i ddysgu'r sgiliau a fydd o fudd iddynt yn y dyfodol. **(Tudalen 24)**

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y dull o arolygu gwasanaethau eirioli yn rhoi ystyriaeth eang i ganlyniadau'r gwasanaeth a'r berthynas hirdymor y mae eiriolwyr wedi'i meithrin gyda defnyddwyr gwasanaethau. Drwy wneud hyn, dylai arolygiadau ddefnyddio safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc fel man cychwyn. Dylai Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru arwain arolygiadau a dylai gydweithio'n agos ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. **(Tudalen 25)**

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid mapio'r gwasanaeth eirioli a ddarperir yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor o'r farn mai'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu a chynnal trosolwg o'r fath. **(Tudalen 27)**

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn fwy eglur ynghylch swyddogaethau, disgwyliadau a chynllun gwaith y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, a'i Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad yn y dyfodol. **(Tudalen 27)**

# Cyflwyniad a Chefndir

1. Ym mis Tachwedd 2007, dechreuodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ei ymchwiliad i wasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Nod yr ymchwiliad oedd craffu ar gynigion Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc ar ôl yr ymgynghoriad ar fodel gwasanaeth newydd a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2007.

2. Derbyniodd ymchwiliad y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol; yr Athro Pithouse; Plant yng Nghymru; Voices from Care; y Grŵp Hollbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal; Comisiynydd Plant Cymru; a chynrychiolwyr llywodraeth leol. Cyflwynodd ugain o randdeiliaid eraill dystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad. Hefyd, bu'r Pwyllgor yn ymweld â phlant a phobl ifanc ledled Cymru i gasglu tystiolaeth ar eu profiadau nhw o wasanaethau eirioli.[1]

3. Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Mawrth 2008 a gwnaeth ddeuddeg argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Roedd yr argymhellion fel a ganlyn:

**Argymhelliad 1:** Yn dilyn proses ymgynghori briodol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu uned eirioli genedlaethol a gaiff ei hariannu'n ganolog, gyda chyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau eirioli annibynnol mewn ardaloedd lleol, ac am gomisiynu gwasanaethau arbenigol ar lefel genedlaethol ar gyfer grwpiau megis plant i geiswyr lloches. Wrth gomisiynu gwasanaethau mewn ardaloedd lleol, byddai'r uned eirioli'n ystyried strwythurau rhanbarthol a lleol, daearyddiaeth a barn y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

**Argymhelliad 2:** Dylai uned eirioli Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o benderfynu i ba ddarparwyr eiriolaeth y dylid rhoi contract, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Byddai'r argymhelliad hwn yn gymwys pan fyddai'r uned yn comisiynu gwasanaethau eirioli lleol, cyffredinol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol cenedlaethol.

[1] Mae'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad ar gael yn www.cynulliadcymru.org.uk

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr uned eirioli genedlaethol yn trefnu rhaglen hyfforddi i eiriolwyr, mewn portffolio o sgiliau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol (gan gynnwys, ymhlith sgiliau eraill, gwrando, deall, meithrin perthynas ag eraill a chwnsela). Dylai hyfforddwyr gynnwys y rheini sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth eirioli yn y gorffennol a phlant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr uned eirioli genedlaethol yn trefnu cyrsiau hyfforddi, drwy ddarparwyr lleol, i ddarpar eiriolwyr lleyg, fel athrawon, cynghorwyr, meddygon, hyfforddwyr dysgu, cogyddion a glanhawyr. Byddai'r uned eirioli'n trefnu hyfforddiant i ddarparwyr lleol er mwy iddynt hwythau hyfforddi eiriolwyr lleyg. Ni fyddai fyth yn angenrheidiol i ddarpar eiriolwr lleyg fod wedi cael yr hyfforddiant hwn, fodd bynnag, cyn y byddai'n cael lleisio pryder ar ran plentyn neu berson ifanc, ac ni fyddai darpar eiriolwr lleyg byth yn cael ei rwystro rhag ymgymryd â'r swyddogaeth hon dim ond oherwydd nad oedd wedi'i hyfforddi.

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr uned eirioli genedlaethol yn darparu hyfforddiant i wasanaethau eirioli lleol, i'w cynorthwyo i hyfforddi plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'u gwasanaethau, i eirioli ar eu rhan eu hunain neu i eirioli ar ran eu cymheiriaid yn y dyfodol.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu bod system arolygu gadarn, annibynnol ar gael ar gyfer:

- yr uned eirioli genedlaethol;
- gwasanaethau lleol sy'n darparu eiriolaeth;
- gwasanaethau cenedlaethol sy'n rhoi gwasanaeth eirioli arbenigol.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu bod system arolygu'r gwasanaethau eirioli'n cynnwys dadansoddiad o sgiliau darparwyr eiriolaeth (gan gynnwys, ymhlith sgiliau eraill, gwrando, deall, cwnsela a meithrin perthynas ag eraill).

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu gwasanaeth ffôn a neges destun am ddim i blant a phobl ifanc. Dylai'r gwasanaeth ffôn hwn fod am ddim o ffonau symudol yn ogystal â ffonau tirwifren. Yn ogystal â

gwrando ar bryderon y rheini sy'n ffonio, byddai'r gwasanaeth hwn yn gallu rhoi gwybodaeth iddynt am ddarparwyr eiriolaeth a allai eu helpu gyda phryderon penodol. Dylai'r gwasanaeth hwn fod ar gael bod awr o'r dydd a'r nos.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu system hysbysebu ar gyfer ei gwasanaeth ffôn a neges destun di-dâl i blant a phobl ifanc. Yn yr hysbysebion, dylid egluro'r hyn yw eiriolaeth, a sut y gall helpu plant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 10:** Drwy gytundebau lefel gwasanaeth, a bennir drwy'r uned eirioli, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod plant a phobl ifanc fel arfer yn cael dewis eu heiriolwyr.

**Argymhelliad 11:** Drwy gytundebau lefel gwasanaeth, i'w pennu gan yr uned eirioli, a thrwy hyfforddiant a systemau arolygu, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod eiriolwyr yn cadw sylwadau plant a phobl ifanc yn gyfrinachol, oni bai y gallai hynny olygu bod y plentyn neu'r person ifanc, neu berson arall sy'n agored i niwed, fod yn agored i berygl uniongyrchol neu niwed sylweddol. Mae diffiniad polisi o 'niwed sylweddol' a 'pherygl uniongyrchol' i'w gweld ym Mholisi Cyfrinachedd Comisiynydd Plant Cymru yn Atodiad 3.

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyfarwyddyd i'r uned eirioli gomisiynu gwasanaethau eirioli drwy gynnig cytundebau tair blynedd fel arfer, gyda'r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod hwn, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a pharhad.

4. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn cytuno â naw o'n hargymhellion, ac yn cytuno'n rhannol neu mewn egwyddor â'r tri arall.

5. Ym mis Mawrth 2009, bu'r Pwyllgor yn craffu ar y ffordd y gweithredodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yr argymhellion a wnaed yn adroddiad 2008. Mewn sesiwn dystiolaeth lafar, bu'r Pwyllgor yn trafod y cynnydd a wnaed o ran gweithredu model newydd ar gyfer gwasanaethau eirioli a fyddai'n annibynnol ar awdurdodau lleol ac yn darparu cymorth ar lefel briodol i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli ledled Cymru.

6. Ym mis Mai 2009, yn dilyn y drafodaeth gyda'r Gweinidog, cyhoeddwyd ein hadroddiad, 'Craffu ar ddatblygiadau mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru'. Gwnaeth yr adroddiad 5 argymhelliad pellach i Lywodraeth Cymru, sef:

**Argymhelliad 1:** Dylai aelodau'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol gael cyfle i gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Argymhelliad 2:** Dylid gofyn i'r plant a'r bobl ifanc sy'n aelodau o'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol a ydynt yn dymuno cael cyfle i gyfarfod ar wahân i'r oedolion sydd ar y Bwrdd, cyn cyfarfodydd y Bwrdd.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru egluro pa gyllid a fydd yn cael ei ddefnyddio i sefydlu'r consortia o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, er mwyn datblygu a chomisiynu gwasanaethau eirioli integredig ar y cyd.

**Argymhelliad 4:**

**4.1.** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bennu cost sefydlu gwasanaeth eirioli a chynghori ffôn a neges destun, y gellir ei ffonio am ddim o ffonau symudol.

**4.2.** Wedi pennu'r gost, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod gan yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad ddigon o arian i sefydlu'r gwasanaeth hwn.

**Argymhelliad 5:** Yn ei chanllawiau comisiynu ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys cyfarwyddyd clir y dylai plant a phobl ifanc fod yn gallu newid yr eiriolwr proffesiynol sy'n eu cynrychioli, heb orfod egluro pam eu bod yn anhapus ac eisiau ei newid.

7. Ym mis Mehefin 2010, gwahoddodd y Pwyllgor randdeiliaid allweddol i roi tystiolaeth i adolygiad pellach o'r cynnydd a wnaed i ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc. Derbyniwyd tystiolaeth lafar gan y canlynol:

- Roger Bishop, Ymddiriedolwr, Plant yng Nghymru
- Sean O'Neil, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru
- Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru
- Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant
- Suzanne Chisholm, Pennaeth Hawliau Plant a Phobl Ifanc, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Elin Gwynedd, Pennaeth yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Carol Floris, Rheolwr Cyngor a Chymorth, Voices from Care
- Phil Diamond, Cadeirydd Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Cymorth Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Helen Gregson-Holmes, Rheolwr, Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy, Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Cymorth Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc

8. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r holl dystion am eu tystiolaeth werthfawr i'r ymchwiliad hwn.

# Materion Allweddol

## Cynnydd wrth weithredu Model Eiriolaeth Llywodraeth Cymru

9. Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fframwaith gwasanaeth newydd ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli yng Nghymru yn y dyfodol, a oedd i gael ei weithredu dros gyfnod o ddwy flynedd. Awgrymodd y dystiolaeth a dderbyniwyd yn ymchwiliad diweddaraf y Pwyllgor bod y datblygiadau a'r newidiadau yn narpariaeth eiriolaeth wedi bod yn gyfyngedig hyd yma.

10. Meddai Sean O'Neil, Cyfarwyddwr Polisi Plant yng Nghymru, wrth y Pwyllgor:

> "We feel that there has been sufficient lead-in time for this to have moved forward a lot quicker than it has. We are rather concerned and disappointed that things have not moved faster, considering that there has been plenty of warning and lead-in time for partnerships to work more effectively together to look at specialist advocacy provision and roll it out to a wider group of children, beyond just looked after children."[2]

11. Dywedodd Plant yng Nghymru hefyd nad oes llawer wedi newid ar lawr gwlad yn y 2 flynedd ddiwethaf[3] a barn Comisiynydd Plant Cymru oedd bod angen mynd ati ar fyrder[4] i weithredu'r model newydd yn llawn a monitro canlyniadau i blant a phobl ifanc.

12. O ystyried bod canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2009, a bod diweddariadau wedi'u cyhoeddi ym mis Hydref 2009 a mis Mawrth 2010, pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog dros Blant y dylai pawb, erbyn hyn, fod yn fwy nag ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt.[5] Ategodd hyn gan ddweud na ddylai unrhyw un ddefnyddio'r esgus nad ydynt yn gwybod beth yw eu nod yn y pen draw na'i fod yn syndod iddynt.[6]

13. Cadarnhaodd Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Cymorth Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc fod y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi bod yn rhoi sylw i'r canllawiau cynghori ac yn symud

[2] Cofnod y Trafodion (CyT), 29 Mehefin 2010, paragraff 161
[3] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 165
[4] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 88
[5] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 47
[6] ibid

ymlaen. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a dderbyniwyd bod rhai Partneriaethau wedi bod yn symud yn gynt nag eraill.

14. Dywedodd Voices from Care wrth y Pwyllgor:

> "We have seen a very mixed picture of delivery. Some areas are focusing on the new model and taking great steps forward; in other areas, there has not been the same will to put advocacy high up on the agenda."[7]

15. Er y byddai rhai newidiadau yn cymryd peth amser[8] dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Blant fod ganddo bob rheswm i fod yn hyderus[9] y byddai'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn barod i roi'r model ar waith, a chadarnhaodd y bydd canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi eleni.[10]

16. Fodd bynnag, o ystyried y darlun cymysg o'r ddarpariaeth a gafwyd gan dystion, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen y canllawiau statudol hyn ar fyrder i symud yr agenda eiriolaeth yn ei blaen.

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau statudol heb unrhyw oedi pellach.**

**Model comisiynu rhanbarthol Llywodraeth Cymru**

17. Argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad yn 2008 y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu uned eirioli genedlaethol wedi ei hariannu'n ganolog, gyda chyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau eirioli annibynnol mewn ardaloedd lleol, a chomisiynu gwasanaethau arbenigol ar lefel genedlaethol ar gyfer grwpiau fel plant sy'n ceisio lloches. Derbyniwyd hyn yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

18. Cafodd uned eirioli ei sefydlu gan y Llywodraeth ac mae'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaeth eirioli a chynghori cenedlaethol sydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc. Fodd bynnag, ni chefnogodd y Llywodraeth yr argymhelliad y dylai'r uned gomisiynu gwasanaethau lleol, sy'n cael eu comisiynu yn hytrach gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

19. Mae'r model comisiynu newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gydweithio a chomisiynu'n rhanbarthol. Fodd

[7] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 9
[8] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 8
[9] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 47
[10] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 12

bynnag, dywedodd Mr Diamond o Gymdeithas Genedlaethol Swyddogion Cymorth Partneriaethau wrth y Pwyllgor fod comisiynu o'r fath yn dipyn o broblem. Dywedodd am ei ranbarth:

> "The five local authorities explored joint commissioning at a regional level; I admit that it is only when one looks at the variety of services offered across the five areas that it starts to become difficult to look at joint commissioning within the region, because the services that are offered are so different."[11]

20. Credai Mr Diamond y gallai comisiynu rhanbarthol niweidio gwasanaethau mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Dywedodd:

> "There is still variation in the types of services available. One area may offer the bare minimum - literally advocacy only for those children known to social services - while another area may offer a full universal service. What we do not want to see is an equalising of services that may result in taking services away from one area that has worked in this field and giving services to another area. It is not so much that that area may not be ready for those services, but we do not want to take away services from an area where they are working well."[12]

21. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y consortia yn cael anhawster wrth roi'r model comisiynu rhanbarthol ar waith ac yn rhannu pryderon Mr Diamond na ddylai gwasanaethau yn yr ardaloedd hynny lle mae darpariaeth eirioli yn fwy datblygedig weld eu gwasanaethau'n cael eu tocio o dan y model newydd.

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu a yw'r dull consortia yn realistig ac yn ymarferol, neu a fyddai model cenedlaethol yn ffordd well ymlaen. Mae'n hanfodol nad yw cynnal adolygiad yn amharu ar y dull cyfredol.**

### Annibyniaeth ar gyfer darparwyr eiriolaeth

22. Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor wedi mynegi ei siom ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i dderbyn argymhelliad y Pwyllgor yn rhannol yn unig am uned eirioli a gaiff ei hariannu'n ganolog i gomisiynu gwasanaethau lleol ac arbenigol. Mae tystion i ymchwiliadau cynharach, ac i'r adolygiad hwn, wedi bod yn glir bod

[11] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 110
[12] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 112

gwasanaethau eirioli annibynnol yn hanfodol i'r plant a'r bobl ifanc sy'n eu defnyddio. Dim ond uned eirioli a gaiff ei hariannu'n ganolog all ddarparu'r annibyniaeth honno.

23. Dywedodd Mr Diamond, Cadeirydd Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Cymorth Partneriaethau wrth y Pwyllgor:

> "Children and young people ask the question themselves: 'who pays for you? Social Services? They are the people I'm complaining about'. So we are in total agreement that a move to a more independent body, such as the children and young people's partnerships, would be a positive step. It is also worth mentioning that the children and young people's partnerships rely heavily on the lead member, which is the local authority"[13]

24. Yn yr un modd, nododd Comisiynydd Plant Cymru:

> 'On the question of independence, I remember sitting before this Committee and saying that you cannot have degrees of independence: something is either independent or it is not.'[14]

25. Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> 'it is quite right that we all focus on the independence of advocacy services…the national advocacy board, which consists of four adult professionals and four young people, is independent… The board's job is to ensure that independence across all aspects of what we are doing on this. We are commissioning, through children and young people's plans, on a regional and sub-regional basis, which is the nub of guaranteeing how independence works best.'[15]

26. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y bwrdd eiriolaeth cenedlaethol a'r safonau cenedlaethol yn creu fframwaith cadarn[16] mae ganddo farn wahanol o hyd i Lywodraeth Cymru ar annibyniaeth y trefniadau comisiynu, a chred y dylent fod yn gwbl annibynnol er mwyn ennill ymddiriedaeth y plant a'r bobl ifanc y mae'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod y byddai oedi cyn rhoi model dewisol Llywodraeth Cymru ar waith fesul

[13] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 115
[14] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 89
[15] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 19
[16] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 25

cam yn llesteirio gwelliannau i wasanaethau eirioli a fyddai'n niweidiol i'r plant a'r bobl ifanc sy'n fwyaf agored i niwed.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod comisiynwyr yn cynnwys plant a phobl ifanc wrth bennu ansawdd, sicrhau annibyniaeth, a dylanwadu ar y broses o gomisiynu gwasanaethau eirioli er mwyn sicrhau bod ganddynt hyder yn y gwasanaethau a ddarperir.**

### Gwasanaethau eirioli ar gyfer plant sy'n agored i niwed

27. O dan *Reoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004*, mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli i gategorïau penodol o blant a phobl ifanc. Mae'r rheoliadau'n berthnasol i blant mewn angen, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal ac sy'n gadael gofal. Ym mhob achos, mae'n rhaid darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plentyn mewn angen neu sy'n gadael gofal sy'n cwyno'n uniongyrchol, neu sy'n bwriadu cwyno ar ei ran ei hun.

28. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> "Built into the model - which, as I say, is the bible for how this system will operate - are five elements. One of them concentrates entirely on the needs of vulnerable groups. Therefore, we will not lose focus on these groups of children and young people. Indeed, I believe that this model will be an enormous step forward for more vulnerable children and young people. We will have made it a great deal easier for them, compared with the systems that existed in the past."[17]

29. Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth ddilynol mynegwyd rhai pryderon gan y Comisiynydd Plant fod y meini prawf cymhwyster yn anghyson. Yn ei bapur ychwanegol, a gyflwynwyd yn dilyn ei dystiolaeth lafar, dywedodd:

> "Anecdotal evidence suggests that there are inconsistencies relating to:
>
> - Eligibility criteria with varying definitions of a 'child in need'

---

[17] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 56

- Whether or not the advocacy provision relates to complaints only

The National Advocacy Development and Performance Unit is currently developing a 'map' of advocacy provision across Wales which should assist in gaining a better understanding of the exact nature of provision on the ground."[18]

30. Fe wnaeth Plant yng Nghymru hefyd dynnu sylw at anghysondebau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol o ran pa blant sy'n gymwys ar gyfer darpariaeth eirioli. Meddent yn eu tystiolaeth lafar:

> "in some areas there is a very good, pretty comprehensive service, while in others it is very restricted; in some areas it is very very restricted. Therefore, yes, in some areas of Wales, lots of young people are ineligible for specialist services, because services do not exist."[19]

31. Roedd y Comisiynydd Plant hefyd yn bryderus nad yw gwasanaethau'n cael eu defnyddio gan y rhai sydd eu hangen, hyd yn oed os yw'r gwasanaethau ar gael. Dywedodd:

> "I am very clear about the fact that children and young people are still not receiving what we would call a good advocacy service, because they do not know that it exists. That can be the case for some vulnerable children and young people, too."[20]

32. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol bod pob plentyn sy'n derbyn gofal neu sydd wedi'i fabwysiadu yn gallu defnyddio eiriolwr (o'i ddewis) a bod yn rhaid bodloni ymrwymiadau a hawliau statudol.

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a diffinio hawliau statudol plant a phobl ifanc i eiriolaeth, gan roi blaenoriaeth i ddiffinio 'plant mewn angen', er mwyn mynd i'r afael ag amrywiadau rhanbarthol yn y ddarpariaeth.**

---

[18] Papur ysgrifenedig ychwanegol gan Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2010, tudalen 4

[19] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 209

[20] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 124

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhieni corfforaethol iddynt yn gwybod am eu hawliau i eiriolaeth.**

**Pwysau ariannol a'i effaith ar eiriolaeth gyffredinol**

33. Roedd rhai o'r tystion yn bryderus y gallai gwasgfa anochel yr hinsawdd economaidd bresennol ar gyllidebau lleol beryglu'r uchelgais am wasanaeth statudol cyffredinol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Dywedodd Plant yng Nghymru wrth y Pwyllgor:

> "Without additional resources, there is a challenge; there has always been a challenge for some of the service providers in meeting their statutory obligations. We are now in a very different situation to the one we were in two years ago; we are hearing about services where funding is being reduced and posts have started to be cut, at the same time as there has been an increased demand for those services… There is a real threat that we will go backwards, because of the cuts."[21]

34. Pan ofynnwyd a yw awdurdodau lleol yn debygol o ganolbwyntio ar gyflawni eu hymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaethau eirioli a gosod darpariaeth mynediad cyffredinol yn y blwch 'os bydd gennym arian ar ôl', dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "I will not sit here and pretend that there is no financial risk. What I can say is that we have a cast-iron commitment for 2010-11. Some £0.75 million has gone into Meic, but everyone out there should be resourced sufficiently at the moment to be able to deliver universal access to advocacy… No Assembly Member, including me, can guarantee anything beyond May next year in relation to financial pressures."[22]

35. Dadleuodd Voices from Care yn daer dros ddarparu'r gwasanaethau eirioli gorau posibl ar gyfer plant sy'n agored i niwed. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Voices from Care fod angen blaenoriaethu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n

[21] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraffau 172 - 176
[22] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 58

agored i niwed, gan ddweud bod hefyd angen model o'r radd flaenaf ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.[23]

36. Pwysleisiodd Voices from Care hefyd y dylid darparu gwasanaethau o'r fath law yn llaw â hyrwyddo eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc. Credent y gellid cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar yr ystod lawn o brofiadau eirioli. Nododd ei bapur ysgrifenedig:

> "The basis for Voices From Care is user involvement and peer advocacy. Whilst the organisation supports developments for 'skilling' professional advocates, we do have some concerns that the 'skilling' of other advocates has not been given enough attention and resources. We would like to see a concentrated focus on self- advocacy as an essential tool in empowering children and young people."[24]

37. Roedd hyn yn adleisio tystiolaeth Comisiynydd Plant Cymru, a ddywedodd:

> "One thing that we began to think about was that a teacher, a police officer or anyone could be an advocate. On universal provision of advocacy and of workforce development, we may be missing a trick if we think about universal advocacy being a professional spectrum…Local authorities will be mindful of the fact that they have a commissioner and a government that will be on their backs if statutory entitlement to advocacy is not delivered. I would expect them to be able to prove that those services are in place, but I do not think that it necessarily has to be at the expense of universal provision"[25]

38. Fel y nododd Joyce Watson AC, aelod o'r Pwyllgor, mae'n debyg bod mwy o blant a phobl ifanc sydd heb eu nodi fel rhai agored i niwed na rhai sydd wedi'u nodi fel rhai agored i niwed.[26] Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol bod darpariaeth gyffredinol yn realiti ledled Cymru i'r holl blant a phobl ifanc hynny nad ydynt eto wedi'u nodi fel rhai agored i niwed, ond sydd, o bosibl, mewn gwir angen i'w lleisiau gael eu clywed.

---

[23] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 53
[24] CYP(3)-11-10: Papur 1: tystiolaeth gan Voices from Care, paragraff 2.2
[25] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 121- 122
[26] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 51

39. Yn ei adroddiad yn 2008, argymhellodd y Pwyllgor y dylid sefydlu trefniadau ar gyfer darparu rhaglen hyfforddi ar gyfer eiriolwyr mewn portffolio o sgiliau sy'n cael eu cydnabod. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

40. Fodd bynnag, mynegodd Plant yng Nghymru bryderon bod rôl eiriolaeth yn cael ei chamddeall o hyd mewn rhai proffesiynau, sy'n golygu ei bod yn cael ei hystyried weithiau'n rhywbeth sy'n digwydd mewn perthynas â chwynion. Teimlai Plant yng Nghymru fod angen hyfforddiant parhaus, a hynny i bob gweithiwr proffesiynol, oherwydd os yw'r system i gael ei rhoi ar waith fesul cam, mae angen hyfforddiant mewn ysgolion a chyda gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau bod pawb yn gallu gweld manteision eiriolaeth i blant a phobl ifanc[27].

41. Mae'r rhaglen hyfforddiant sydd ar waith ar hyn o bryd yn hyfforddi ei charfan gyntaf o 22 o bobl. Felly, mae'n rhy gynnar i asesu pa mor effeithiol yw'r hyfforddiant neu unrhyw raeadru a fydd yn dilyn.

42. Mae'r Pwyllgor yn nodi na allai'r Dirprwy Weinidogion roi unrhyw sicrwydd ynghylch dyfodol cyllid ar gyfer hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol yn wyneb y sefyllfa economaidd bresennol ac etholiadau arfaethedig mis Mai.

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r hyn a olyga wrth 'cyffredinol' ac yn nodi'n glir yr hawl sydd gan bob plentyn a pherson ifanc i eiriolaeth, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cyson a theg ar gael ledled Cymru.**

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid blaenoriaethu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni, ond na ddylid anghofio am ddarpariaeth gyffredinol.**

### Prynu heb Gontract

43. Mae prynu heb gontract yn golygu prynu gwasanaethau eirioli ar sail ad-hoc mewn ymateb i bwysau penodol. Mae arferion o'r fath yn rhatach i awdurdodau lleol eu darparu, ond nid ydynt yn caniatáu i'r berthynas rhwng yr eiriolwr a'r plentyn neu berson ifanc y mae'n eirioli ar ei ran ffynnu.

---

[27] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 200 - 202

44. Dywedodd Voices from Care wrth y Pwyllgor,

> "From our perspective, [spot purchasing] would certainly not be a good enough model for the provision of advocacy. By looking at the mix, we see some situations where advocacy is withdrawn too quickly so that although the situation has been resolved, sometimes young people have time to think about how it has been resolved and then they have further questions. We all know that, sometimes, over time, things do not turn out as they were promised and where one resolution was promised, half of it may have been provided, but the other half may not. That may not be immediately obvious."[28]

45. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc allu ymddiried yn y person a fydd yn siarad ar ei ran er mwyn sicrhau'r eirioli mwyaf effeithiol. Mae annibyniaeth yn rhan bwysig o hynny, ond felly hefyd yr amser i feithrin perthynas. Dywedodd y Comisiynydd Plant wrth y Pwyllgor:

> "the difficulty with spot purchasing is that, if it becomes just a telephone number on the wall, to be called or texted when in trouble, and where there is no relationship of trust, then I am a bit confused as to the extent to which children and young people would have the confidence to use such a telephone number, or feel that the service that they were receiving was a good one. While you can understand, in the current economic climate, that it may be cheaper to spot purchase, there are big questions as to the quality, trust and outcomes that children and young people would have."[29]

46. Soniodd Voices from Care am wasanaethau eirioli yn grymuso pobl ifanc dros gyfnod i ddysgu am gysyniad hunaneiriolaeth a fydd yn eu paratoi ar gyfer y dyfodol.[30] O'i hanfod, ni fydd prynu heb gontract yn caniatáu i'r dysgu a'r datblygu parhaus hynny ddigwydd.

47. Dywedodd Cadeirydd Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Cymorth Partneriaethau wrth y Pwyllgor ei fod wedi trafod prynu heb gontract ag eraill yn ei ardal. Credai'r pum awdurdod yn y rhanbarth y gallent:

---

[28] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 19
[29] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 109
[30] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 15

> "develop a framework that was consistent across the board but, where areas had different needs, spot purchasing could be undertaken within the contract."[31]
>
> Awgrymwyd y byddai trefniant o'r fath yn cael ei ddefnyddio pe bai, er enghraifft, angen eiriolaeth ar blant ag anableddau yn Sir Fynwy, yn hytrach na Blaenau Gwent, ac am ba reswm bynnag, y gallai Sir Fynwy brynu heb gontract o fewn y contract.[32]

48. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall fod angen prynu heb gontract o dan yr amgylchiadau mwyaf anarferol, ond mae'n poeni y gallai arferion o'r fath gael eu defnyddio'n amlach o ganlyniad i'r wasgfa ariannol bresennol. Mae'r Pwyllgor hefyd o'r farn na fyddai angen prynu heb gontract pe bai model cenedlaethol ar gael, oherwydd byddai'n haws cael gafael ar wasanaethau arbenigol ledled Cymru.

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir yn ei chanllawiau statudol nad yw prynu heb gontract yn dderbyniol ac na ddylai ddigwydd ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol.**

**Argymhelliad: Dylai unrhyw adolygiad o'r dull consortia o gomisiynu gwasanaethau eirioli ystyried a fyddai model cenedlaethol yn dileu'r angen i brynu heb gontract.**

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried beth yw'r ffordd orau iddi gefnogi hunaneiriolaeth ac eirioli ar ran cymheiriaid, er mwyn grymuso plant a phobl ifanc i ddysgu'r sgiliau a fydd o fudd iddynt yn y dyfodol.**

**Arolygu a Rheoleiddio**

49. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn y gorffennol y bydd darparwyr eiriolaeth yn cael eu cofrestru a'u rheoleiddio. Ail-bwysleisiwyd yr ymrwymiad hwnnw gan y Dirprwy Weinidog, a ddywedodd wrth y Pwyllgor fod yr uned eirioli yn cynnal trafodaethau ar y dull o brosesu'r cofrestriadau, a'i fod wedi gofyn iddynt wneud hynny erbyn 2011.[33]

---

[31] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 173
[32] ibid
[33] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 81

50. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd: “I do not have a fixed view yet on inspection. Again, the Committee’s input will be valuable, as will input from the Children’s Commissioner and others.”[34]

51. Awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru y dylai Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) fod yn bennaf cyfrifol am arolygu, ond y dylai weithio’n agos ag Estyn a’r arolygiaeth iechyd.[35] Roedd Plant yng Nghymru hefyd o’r farn y dylai AGGCC fod yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gwasanaethau eirioli.[36]

52. Roedd Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Cymorth Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn cytuno y dylid cynnal arolygiadau fel rhan o arolygiad gofal cymdeithasol ac addysg. [37] Credent hefyd y dylid cynnal llai o arolygiadau a chynnal arolygiadau ar y cyd.

53. Credai Carol Floris, Rheolwr Cyngor a Chymorth Voices from Care fod angen arolygiadau ond roedd yn amheus a ddylent ddilyn patrwm yr arolygiadau presennol.[38] Awgrymodd y dylid mesur canlyniadau ysgafnach eiriolaeth fel rhan o’r gydnabyddiaeth bod:

> “advocacy is part of a longer-term model, and is a continuum ranging from advocacy, self advocacy, or peer advocacy, so that people would have to be looking over the longer term.”[39]

**Argymhelliad: Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y dull o arolygu gwasanaethau eirioli yn rhoi ystyriaeth eang i ganlyniadau’r gwasanaeth a’r berthynas hirdymor y mae eiriolwyr wedi’i meithrin gyda defnyddwyr gwasanaethau. Drwy wneud hyn, dylai arolygiadau ddefnyddio safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc fel man cychwyn. Dylai Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru arwain arolygiadau a dylai gydweithio’n agos ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.**

**Y Gwasanaeth Eiriolaeth Cenedlaethol a’r Llinell Gyngor - Meic**

54. Lansiwyd y Gwasanaeth Eiriolaeth Cenedlaethol a’r Llinell Gyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Mai 2010. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

---

[34] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 78
[35] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 133
[36] CYP(3)-10-10: papur 3: Plant yng Nghymru, tudalen 5
[37] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 176
[38] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 27
[39] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 29 - 31

"It is the first of its kind at a national level.  It gives children and young people a single point of contact via telephone, text and instant messaging.  It is a seven-day-a-week, 24 hour service.  Thus far, the feedback that we are getting is very positive from children and young people.  It is being used, and we have some usage statistics, which are very positive."[40]

55.  Ym mis Mawrth 2008, argymhellodd y Pwyllgor y dylid darparu llinell ffôn 24 awr ddi-dâl ac felly mae'n croesawu datblygiad Meic. Cafodd Meic hefyd ei groesawu gan dystion fel cam cadarnhaol ymlaen, ond roedd rhai amheuon am ymarferoldeb darparu gwasanaethau eirioli cyffredinol mewn ffordd gyson a theg i holl ddefnyddwyr y llinell ffôn a'r gwasanaeth testun.

56.  Meddai'r Comisiynydd Plant: "Meic will be only as good as the services that it is able to refer."[41]

57.  Roedd gan y Comisiynydd hefyd bryderon nad oedd y gwasanaethau eirioli yn cael eu mapio o gwbl. Byddai hyn yn rhoi dealltwriaeth glir o'r gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru. Dywedodd y Comisiynydd:

"I am not entirely sure how Meic can do its work unless it has that information in place, and it ought to be freely available to me and you.  My understanding is that it is not, so some work needs to be done; otherwise, how do you deal with a client on the other end of the telephone?  You cannot tell them whether a service exists, or whether you can spot purchase.  It does not make any sense, so we need this essential tool if Meic is to do its job."[42]

58.  Adleisiodd Plant yng Nghymru'r farn hon gan ddweud:

"we need to know exactly what is happening on the ground and what services are available in each county.  We need a clearer picture of this.  At the moment, what happens to those calls that comes through the Meic service where there is a serious safeguarding issue, possibly with regard to a child, and there is no service, or the service is running at such reduced capacity that it is not able to deal with the issue or work with the child

[40] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 8
[41] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 137
[42] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 142

immediately, and so the child has to wait? We do not want children waiting; we do not want gaps in services."[43]

59. Mae'r Pwyllgor yn croesawu Meic ond yn pryderu bod yn rhaid bodloni disgwyliadau plant a phobl ifanc sy'n cysylltu â'r gwasanaeth os yw am ennill ymddiriedaeth ei ddefnyddwyr.

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid mapio'r gwasanaeth eirioli a ddarperir yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor o'r farn mai'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu a chynnal trosolwg o'r fath.**

**Y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol**

60. Roedd hi'n ymddangos fod y tystion i'r adolygiad hwn yn ansicr ynglŷn â gwahanol rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol ac uned eirioli Llywodraeth Cymru, a sut y byddent yn cael eu rhannu.

61. Dywedodd Voices from Care y gallai cyfuno'r bwrdd Cenedlaethol a chomisiynu rhanbarthol achosi anawsterau wrth geisio darparu gwasanaeth cyson a theg ledled Cymru. Wrth ei holi am rôl y bwrdd eiriolaeth annibynnol yn monitro gwasanaethau o'r fath, meddai Carol Floris o Voices from Care:

> "it should be ensuring that advocacy is available across the board and trying to ensure that consistency, but it will still be difficult to do that with the regional commissioning model, to ensure that consistency."[44]

**Argymhelliad Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn fwy eglur ynghylch swyddogaethau, disgwyliadau a chynllun gwaith y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, a'i Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad yn y dyfodol.**

[43] CyT, 29 Mehefin 2010, paragraff 210
[44] CyT, 13 Gorffennaf 2010, paragraff 46